**RHIF YR EITEM AR Y RHAGLEN ...............**

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN** | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | **BWRDD CYNALIADWYEDD** |
| **Dyddiad** | **22 MAWRTH 2012** |
| **Pwnc** | **ASESIAD RISG AR GYFER CYLLIDEB 2012-13** |
| **Deilydd(ion) Portffolio** | **BYRON DAVIES (COMISIYNYDD)**<br>**Y CYNGHORYDD H E JONES (AELOD PORTFFOLIO CYLLID)** |
| **Swyddog(ion) Arweiniol** | **GILL LEWIS**<br>**SWYDDOG ADRAN 151 DROS DRO** |
| **Swyddog Cyswllt** | **GILL LEWIS/EINIR THOMAS** |

**Natur a rheswm dros adrodd**

Cyflwyno'r risgiau sy'n gysylltiedig hefo cyllideb 2012-13.

**A - Cyflwyniad / Cefndir / Materion sydd angen sylw**

**B – Ystyriaethau**

I ystyried :-

Y risgiau sy'n gysylltiedig â chyllideb 2012-13 a'r cynlluniau arbedion cysylltiedig.
Y meysydd/prosiectau i helpu i liniaru'r risgiau hynny.

## 1. CEFNDIR

**1.1** Yn yr adroddiad i'r Comisiynwyr ar 20 Chwefror 2012 ar y Strategaeth Tymor Canol ar gyfer y Gyllideb Refeniw a'r Cynigion Refeniw Terfynol ar gyfer 2012-13 yn ogystal a'r adroddiad ar gyllideb 2012-13 a gyflwynwyd i'r Cyngor ar 6 Mawrth 2012, tynnwyd sylw at y risgiau sy'n gysylltiedig â chyllideb 2012-13 a'r arbedion perthnasol.

**1.2** Mae Cyllideb 2012-13 yn cynwys £3.74m o arbedion effeithlonrwydd sydd yn ychwanegol at y Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy gyfredol (y Rhaglen). Mae cyflawni'r arbedion hyn yn risg sylweddol i'r Awdurdod ym mlwyddyn ariannol 2012-13 a gall ddylanwadu ar flynyddoedd i ddod. Mae'n amlwg y bydd rhaid rheoli'r cynlluniau arbedion hyn fel rhan sylfaenol o'r trefniadau corfforaethol ar gyfer monitro'r gyllideb ac o ganlyniad bydd rhaid cynnal asesiad risg. Bydd angen trefniadau rheoli prosiect cryf ynghyd â chymorth ariannol ar gyfer y meysydd allweddol a nodwyd fel risg i'r Cyngor o ran cyflawni'r rhaglen arbedion a'r gyllideb sail er mwyn cynorthwyo i gyflawni'r gyllideb gyffredinol.

**1.3** Mae atebolrwydd o ran cyflawni'r gyllideb yn hollbwysig ac, os oes angen cymorth ychwanegol, boed hynny'n gymorth ariannol neu gymorth gyda rheoli prosiectau, bydd raid rhoi gwybod am hynny yn gynnar yn y broses o gofio'r risgiau sy'n gysylltiedig â chyflawni rhai o'r arbedion. Yn ogystal, bydd yn bwysig rhoi cymorth ychwanegol ar gyfer y tymor canol a chyflawni'r gyllideb ar gyfer 2013/14 ac ar ôl hynny, oherwydd y gallai newidiadau a wneir yn 2012/13 gael sgil effaith i'r dyfodol.

## 2. ASESIAD RISG

**2.1** Mae'r Adran Gyllid wedi ceisio categoreiddio'r holl gynlluniau arbedion sy'n cyfrannu at gyllideb 2012-13, yn seiliedig ar y risg o beidio â'u cyflawni'n llawn, gyda lliw coch yn dynodi'r risg uchaf o beidio â chyflawni a'r lliw gwyrdd yn dynodi'r risg isaf. Asesiad cychwynnol Cyllid yw hyn sydd wedi ei gynnal yn anibynnol i'r meysydd gwasanaeth. Dilynir hyn gan asesiad risg ar y cyd â'r gwasanaethau.

Mae'r rhain yn seiliedig ar y wybodaeth ynghylch arbedion a gyflwynwyd yn ystod y broses gyllidebol ac y bydd angen i'r gwasanaethau eu hadolygu.

**Coch** – Cynlluniau yw'r rhain yn bennaf sy'n ymwneud yn bennaf ag elfennau staffio, contractau neu rhai mae'r meysydd gwasanaeth wedi eu hamlygu fel risg;

**Ambr** - Cynlluniau yw'r rhain yn bennaf sy'n wynebu risg o ran amseru. Er enghraifft, gweithredu cynlluniau i gynhyrchu incwm. Y prif gynnig yn y categori hwn yw gwaith cynnal Priffyrdd;

**Gwyrdd** - Cynlluniau yw'r rhain yn bennaf lle mae gostyngiad mewn cyllidebau nad ydynt yn ymwneud â staffio neu lle amlygwyd nad yw'r gyllideb yn cael ei defnyddio. Mae'n rhagdybio na fydd y gwasanaethau yn gwneud gwaith (e.e. lleihad yng ngwaith trwsio a chynnal a reolir o fewn gyllideb ddiwygiedig). Er eu bod wedi eu categoreiddio fel materion gwyrdd i ddibenion risg ariannol, gallant ddâl i gael effaith ar wasanaethau.

| Arbedion: Cyfadran | Risg Ariannol | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Coch | | Ambr | | Gwyrdd | | Cyfanswm | |
| | £ | % | £ | % | £ | % | £ | % |
| Addysg (yn cynnwys ysgolion) | 385,280 | 10.29% | 49,000 | 1.31% | 588,710 | 15.73% | 1,022,990 | 27.33% |
| Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol | 1,164,733 | 31.12% | 107,000 | 2.86% | 65,400 | 1.75% | 1,337,134 | 35.73% |
| Amgylchedd a Thechnegol | 243,590 | 6.51% | 640,875 | 17.12% | 99,300 | 2.65% | 983,765 | 26.29% |
| Cyllid | 159,300 | 4.26% | 0 | 0.00% | 64,080 | 1.71% | 223,380 | 5.97% |
| Prif Weithredwr | 73,125 | 1.95% | 0 | 0.00% | 102,130 | 2.73% | 175,255 | 4.68% |
| **Cyfanswm** | **2,026,029** | **54.14%** | **796,875** | **21.29%** | **919,620** | **24.57%** | **3,742,524** | **100.00%** |

Mae'r ffigyrau yn y tabl yn cynrychioli symiau llawn y cynlluniau arbed. **Dim ond cyfran o'r symiau sydd mewn perygl o beidio cael eu cyflawni.** Er enghraifft: Yn y risg Goch mae un cynnig sy'n tybio gostyngiad staffio o £72k. Gall gostyngiad staffio gymryd hyd at 3 mis, a fyddai'n arwain at posibilrwydd o £18k o'r arbediad ddim yn cael ei gyflawni.

**2.2** Amlygir isod y prif feysydd lle mae risg bosib o beidio â chyflawni'r arbedion llawn isod. Y rhain yw'r meysydd yr ystyrir fel y rhai anoddaf i'w gweithredu a'u cyflawni ac maent yn cynrychioli dros hanner y risgiau (gan eu gwerth) a nodwyd yn goch.

### 2.2.1 Addysg

**(a) Integreiddio – arbediad £221k mewn blwyddyn lawn**

Mae'r flwyddyn ysgol academaidd newydd yn cychwyn ym mis Medi 2012. Oherwydd hyn, mae unrhyw ymrwymiadau contractyddol i staff yn berthnasol hyd at y cyfnod hwn (os ydynt yn staff parhaol). Mae hyn yn golygu na fydd rhai arbedion yn cychwyn tan y dyddiad hwn. Oherwydd y bydd yr arbediad yn cychwyn rhan o'r ffordd drwy'r flwyddyn ariannol, dim ond 7 mis sydd ar gael i sicrhau'r arbediad o £221k. Er mwyn cyflawni hyn yn llawn, bydd raid gostwng costau staffio llawn gan swm sy'n cyfateb i £379k y flwyddyn (h.y. bydd raid cael gwared ar fwy o swyddi).

Mae'r gwasanaeth wedi dechrau cynllunio ar gyfer y gostyngiad hwn drwy weithio gydag ysgolion i sefydlu fformiwla y gellir ei defnyddio i benderfynu ar y lefel gywir o gefnogaeth sydd ei hangen. Byddai'r fformiwla wedyn yn cael ei defnyddio ar sail ysgol unigol ac yn rhoddi cysondeb i'r modd y dyrennir adnoddau a chyllid.

**(b) Integreiddio – Gorwariant 2011-12**

Risg bellach yw'r gorwariant a ragamcanwyd ar gyfer 2011-12 ar yr un pennawd cyllideb sydd heb gyflawni. Gall hyn gael effaith ar gyllidebau 2012-13 hyd nes y bydd y cynllun wedi ei gwblhau a'i werthredu. Bydd hyn yn golygu y bydd angen i'r gwasanaeth ddod o hyd i ragor o arbedion i liniaru'r risg hon yn ystod blwyddyn ariannol 2012-13. Rhaid darparu cynlluniau manwl a chlir yn awr ar fyrder fel bod modd eu sgriwtinieiddo a'u monitro'n agosach. Efallai y bydd angen cymorth ychwanegol i sicrhau y gwneir pob ymdrech i gyflawni'r arbedion hyn.

### 2.2.2 Hamdden

**(a)** Parciau a Chyfleusterau Awyr Agored - £84k net

- Y bwriad oedd tynnu'n ôl o ddarparu'r cyfleusterau ac annog sectorau eraill i'w cymryd drosodd. Fodd bynnag, ym marn y gwasanaeth, yn yr amgylchedd presennol, mae'n ymweld nad oes llawer o chwant i gymryd rhain drosodd gan sefydliadau arall.
- O ganlyniad i hyn, mae gwaith ychwanegol wrthi'n cael ei wneud i ystyried parhau i ddarparu'r cyfleusterau ac edrychir ar gamau lliniaru o ran peidio a chyflawni'r arbediad o £84k.

**(b)** Allanoli rheolaeth Canolfan Hamdden Biwmares - £53k net

- Gwnaed gwaith o'r blaen i ymchwilio i allanoli Biwmares, fodd bynnag, ni wnaed digon i symud ymlaen fel mae pethau ar hyn o bryd. Mae angen rhaglen newydd gydag amserlen a fydd yn ceisio ymchwilio i'r cyfleoedd ar gyfer allanoli'r Ganolfan Hamdden. Mae'n bosibl y byddai hyn yn cyflawni'r arbediad blwyddyn lawn oherwydd ni fyddai unrhyw ganlyniad yn cychwyn tan o leiaf rhan o'r ffordd drwy'r flwyddyn.

### 2.2.3 Gwasanaethau Cymdeithasol

**(a)** Rhesymoli'r Gwasanaeth Oedolion - £856k.

- Oherwydd maint yr arbediad, bydd y gwasanaeth yn cael ei ailddylunio a'i ailgyflunio'n sylweddol a bydd angen gweithredu ar hyn yn ystod y flwyddyn ariannol. Fodd bynnag, dylai'r tanwariant a ragwelir liniaru hyn ar gyfer 2011-12. Oherwydd natur y gwasanaethau oedolion, bydd angen gwneud y gwaith hwn fesul dipyn drwy gymysgedd o adolygu'r asesiadau o anghenion a'r ddarpariaeth gyfredol o wasanaethau. Bydd angen datblygu cynlluniau cliriach a manylach i sicrhau mwy o hyder o ran cyflawni'r arbedion hyn.

**(b)** Lleoliadau all-sirol ar gyfer plant

- Ar hyn o bryd, rhagwelir gorwariant ar gyfer 2011-12 a fydd yn parhau i 2012-13. Rhaid canolbwyntio ar y maes hwn i ostwng/cael gwared ar y gorwariant hwn yn 2012-13 yn ogystal ag edrych ar yr achosion a'r camau y gellir eu cymryd.

**(c)** Buddsoddiad 3$^{ydd}$ Sector - £33k

- Bydd angen i'r gwasanaeth ymgynghori gyda'r trydydd sector a rhoddi rhybudd o unrhyw newid yn y drefn gyllido. Mae'n bosibl y bydd hyn yn arwain at oedi o ran pryd y gellir cychwyn gwneud arbedion. Fodd bynnag, mae hyn wedi cael ei liniaru'n rhannol oherwydd mae rhai contractau wedi cael eu hadolygu wrth i'r amser i'w hadnewyddu ddynesu.

### 2.2.4 Priffyrdd a Rheoli Gwastraff

**(a)** Gostwng amseroedd ymateb yn y contract glanhau gwastraff ar gyfer clirio ysbwriel oddi ar strydoedd, baw cŵn a gwastraff a adawyd yn anghyfreithlon. Gwagio biniau yn llai aml. O ganlyniad, bydd angen i'r gwasanaeth gynhyrchu cynlluniau manwl ar gyfer sgriwtini i sicrhau bod yr arbedion yn rhai y mae modd eu cyflawni a chan ddangos y gostyngiad clir yn lefel y gwasanaeth.

### 2.2.5 Cyffredinol :

**(a)** Yn ogystal â'r meysydd penodol a amlygir uchod, mae yna nifer o gynlluniau arbedion sy'n cynnwys gostyngiadau staffio. Mae'r rhain yn cynnwys cynigion a dderbyniwyd gan y canol corfforaethol a'r meysydd gwasanaeth. Oherwydd materion amseru, mae risg uchel na chyflawnir y cyfan o'r arbedion hyn ym mlwyddyn ariannol 2012-13. Bydd raid i'r holl feysydd gwasanaeth ddarganfod arbedion i ddigolledu am hynny. Mae'r meysydd y bydd hyn yn cael effaith arnynt yn cynnwys:

- Cyllid
- TGCh
- Gwasanaethau Pwyllgor
- Sgriwtini
- Polisi
- Gwarchod y Cyhoedd
- Gwasanaethau Plant
- Priffyrdd a Rheoli Gwastraff

### 2.2.6 Costau diswyddo staff

Fel y gweithredir y cynlluniau arbedion bydd costau diswyddo cysylltiedig. Nid yw'r gost llawn o hyn yn wybyddus ar hyn o bryd oherwydd y posibilrwydd fod rhai swyddi yn wag a phenderfynu manylion am y gweithwyr cysylltiedig. I liniaru hyn, gosodwyd o'r neilltu £1.3m arian wrth gefn a balansau, gyda £1m pellach o falansau i'w rhyddhau gan y Prif Weithredwr fel Pennaeth y Gwasanaeth Tâl ac mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Adran 151, petai costau yn mynd yn fwy na hyn.

**2.3** Rhaid gweithredu yn awr ar y cynigion a dal pob gwasanaeth yn atebol am ddarparu cynllun gweithredu ymarferol i ostwng costau. Dylid nodi y dylai'r asesiad hwn fod yn agored i her, sgriwtini ac adolygiad os nad yw'r cynigion gwreiddiol yn gallu cyflawni'r arbedion gofynnol. Bydd angen monitro cynnydd yn ofalus yn erbyn y targedau arbedion.

## 3. Y RHAGLEN BLAENORIAETHAU FFORDDIADWY

**3.1** Mae nifer o brosiectau yn y Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy wedi eu cynnwys yng nghyllideb 2012-13 sydd yn rhoi risg uchel o ran y posibilrwydd na fyddant yn cael eu cyflawni'n gyfan gwbl. Mae'r rhain yn cynnwys:

- **Pwrcasu £150k.** Mae'r arbediad hwn yn seiliedig ar weithredu'n llwyddiannus y fframweithiau a chontractau cydweithio, nid yn lleiaf Partneriaeth Pwrcasu Gogledd Cymru ynghyd â gweithgareddau lleol. Fel y gall y Cyngor elwa o'r fenter hon, mae'n bwysig bod mwy o gontractau o'r math yma ac y cydymffurfir gyda pholisiau y cytunwyd arnynt;

- **Adolygu telerau teithio staff £230k** - Mae cynigion bellach yn eu lle i gadw'r lefel is o ad-daliad ar gyfer hyfforddiant, talu'r 5 milltir cyntaf ar gyfer staff gofal, cael gwared ar bob lwmp swm a thalu costau teithio sy'n weddill ar raddfa 45c y filltir. Yng nghyllideb 2011, cododd y Canghellor y lwfans milltiroedd di-dreth o 40c i 45c neu'r 10,000 milltir cyntaf ac mae hyn wedi'i adlewyrchu yn y targed arbedion Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy.

- **Gostyngiadau yng Nghyllideb Refeniw'r Gwasanaeth Hamdden £127k** – rhesymoli, ailfodelu a chyfuno Gwasanaethau Hamdden gyda gwasanaeth cyfredol er mwyn gostwng y gyllideb refeniw. Mae llithriad o 2011-12 sydd wedi ei ddwyn ymlaen i 2012-13. Ar ôl cymryd arbedion cyllidebol 2012-13 i ystyriaeth, mae risg uwch o beidio cyflawni;

- **Effeithlonrwydd Ynni £17k** - Nodi a darparu arbedion effeithlonrwydd ynni o fewn amrywiol adeiladau gweithredol yn y Cyngor. Lithriad o 2011-12 yw targed 2012-13. Risg uchel oherwydd yr angen i fuddsoddi mewn offer ynni effeithlon, na fydd efallai yn digwydd; oherwydd bod angen nodi adnoddau sydd eu hangen ar gyfer y buddsoddiadau.

- **Rheoli Asedau £50k** - Mewn dwy ran - adolygu opsiynau ar gyfer cael gwared ar eiddo / stadau masnachol a diwydiannol ac ailstrwythuro radical o'r sylfaen asedau. O gofio'r hinsawdd economaidd ac amodau'r farchnad eiddo, bydd y gwaith o gael gwared ar asedau yn heriol. Oni cheir gwared ar stoc sydd dros ben, bydd y costau cysylltiedig yn aros gyda'r Awdurdod.

**3.2** Mae'r cyfan o'r uchod (yn rhannau 2 a 3) yn cynrychioli meysydd risg uchel yn y gyllideb ar gyfer 2012/13. Mae'n bwysig bod cymorth ychwanegol yn cael ei roi i'r meysydd hyn o ran materion prosiect ac ariannol fel bod modd cynorthwyo gyda'r gwaith o reoli cynigion fel eu bod yn cael eu gwireddu. Mae'n bwysig hefyd dyrannu atebolrwydd ar gyfer y gwasanaethau corfforaethol eang hyn i sicrhau bod eglurder ynghylch pwy sy'n gyfrifol am eu cyflawni a bod ganddynt yr awdurdod i yrru'r cynigion fel eu bod yn cael eu cyflawni.

## 4. 2012/13 A'R TU DRAW I HYNNY

**4.1** Adolygir nifer o feysydd gyda'r nod o helpu i liniaru'r pwysau a all arwain o'r risgiau nodwyd ac, yn ogystal, ddarparu sylfaen ar gyfer cynlluno tu draw i 2012-13. Mae'r rhain yn cynnwys :

**4.1.1** Adolygwyd y fflyd gan Weir Consultancy ym mis Ionawr 2012 ynghyd â strwythur cyfredol y gwasanaeth a'r defnydd a wneir o gerbydau. Gwnaed argymhellion cyffredinol ynghylch ailstrwythuro'r gwasanaeth fflyd i gynhyrchu arbedion (gan gynnwys canoli'r fflyd i sicrhau y gellir datblygu strategaeth sy'n fwy cydlynol ar gyfer y fflyd). Bydd gwaith yn cychwyn gyda hyn ar adolygiad llawn o'r fflyd a'i weithgareddau cysylltiedig trwy asesu'r fflyd gyfan, y defnydd a wneir o gerbydau, gwaith cynnal a sut y gellir rheoli hyn yn gorfforaethol i sicrhau arbedion effeithlonrwydd ac i wneud y gwasanaeth yn fwy effeithiol. Caiff y garej hefyd ei hadolygu fel rhan o'r adolygiad o'r trefniant llafur uniongyrchol. Mae gwaith ychwanegol yn cael ei wneud i ganoli cyllidebau a gwariant gwirioneddol i roi darlun llawn o gost y fflyd.

**4.1.2 Canoli TGCh**

A Canoli'r holl gyllideb a gwariant sy'n ymwneud â TGCh fel y gellir datblygu strategaeth TGCh fwy cydlynol a fydd yn gwneud y defnydd gorau posibl o'r adnoddau sydd ar gael, yn sefydlu pa asedau sydd ar gael i'r awdurdod ac yn cynllun adnewyddu rhaglenni.

**4.1.3 Adolygu contractau**

Dylid adolygu'r contractau mwyaf er mwyn sicrhau bod yr awdurdod yn cael y gwerth gorau am arian o ran yr holl brif gontractau ynghyd â lleihau'r gost i'r Awdurdod.

**4.1.4 Adolygu Asedau**

Dylid cynnal adolygiad i nodi asedau y gellir eu rhyddhau ac ystyrir nad oes eu hangen neu y gellid eu defnyddio'n wahanol. Dyma un o'r awgrymiadau a wnaed yng ngweithdy'r aelodau a gynhaliwyd ym mis Ionawr a Chwefror 2012 ac sy'n gyson â dymuniadau'r cyngor i edrych ar y defnydd o asedau yn y gymuned a mentrau cymunedol a chymdeithasol.

**4.1.5 Gweithio mewn partneriaeth**

Mae'n hollbwysig sefydlu ymateb corfforaethol i Gompact Llywodraeth Cymru a bod yr holl staff yn glir ynghylch pa gynlluniau cydweithredol a phartneriaethau y mae'r Cyngor yn eu dilyn. Bydd comisiynwyr ac Aelodau yn arwain prosiect gyda'r cylch gorchwyl o ymchwilio i'r holl gyfleoedd partneriaeth sydd ar agor i'r awdurdod a'r manteision posibl i'r awdurdod a dinasyddion Ynys Môn. Dylai hyn gynnwys Cynghorau Tref a Chymuned, Mentrau Cymdeithasol, Grwpiau Cymunedol, Y Sector Cyhoeddus a'r sector preifat ond ni ddylai fod yn gyfyngedig i'r rhain yn unig.

**4.1.6 Sicrhau bod cymaint o ddisgyblion â phosib wedi eu cofrestru ar gyfer prydau ysgol**

Mae manteision clir o ran iechyd a chynhwysiad cymdeithasol o ran hyrwyddo prydau Ysgol i'r rhai sy'n talu amdanynt a'r rhai sydd ddim. Gall ychwanegu at y nifer sy'n cael prydau ysgol am ddim gael effaith fanteisiol ar RSG a setliadau yn y dyfodol a'r potensial o ran grantiau newydd. Bydd cynyddu'r nifer sy'n cael prydau ysgol yn gyffredinol yn dod â manteision i'r Awdurdod ac i'r Ysgolion. Mae gwaith yn cael ei wneud yn y maes hwn ar hyn o bryd a bydd grŵp tasg yn cael ei sefydlu gyda hyn i fynd â'r mater yn ei flaen.

#### 4.1.7 Monitro agosach o grantiau penodol

Sicrhau bod yr Awdurdod yn hawlio'r holl grantiau y mae ganddo'r hawl i'w derbyn a bod dychweliadau yn cael eu cyflwyno i osgoi dirwyon.

#### 4.1.8 Rhaglen o adolygiadau disgowntiau'r Dreth Gyngor ac eithriadau

I sicrhau y gellir denu cymaint o incwm â phosib ac i barhau i gadw llygad ar ddisgowntiau i bobl sengl.

#### 4.1.9 Monitro agosach o ffioedd a thaliadau

Mae'r cyllidebau incwm edi eu codi gan chwyddiant o 5%. Bydd angen monitro ffioedd a thaliadau am effeithiau ar y galw a chynllunio i liniaru'r risgiau cysylltiedig. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i ffioedd a thaliadau Gwasanaethau Cymdeithasol lle mabwysiadwyd polisi codi tâl newydd.

**4.2** Nid yw'r uchod yn restr gynhwysfawr o'r prosiectau sydd i'w hadolygu i helpu liniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r gyllideb. Mae yna feysydd eraill o'r gyllideb y gellir priodoli risgiau iddynt gan gynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, Arfarnu Swyddi, Grantiau Budd-dal Tai, Budd-dal y Dreth Gyngor, Digartrefedd, costau'r comisiynwyr, cynaliadwyedd sylfaen y dreth, chwyddiant a risgiau corfforaethol sy'n bodoli eisoes. Dylid adolygu cyllidebau'n rheolaidd, drwy fonitro'r gyllideb a mechanwaith adolygu arall i sicrhau lliniaru'r risgiau.

## 5. CAMAU NESAF

**5.1** Mae'r asesiad risg uchod wedi canolbwyntio'n bennaf ar y rhaglenni arbedion a ymgorfforir o fewn cyllideb 2012-13. Bydd asesiad risg pellach yn cael ei wneud unwaith y bydd yr holl wasanaethau wedi cwblhau eu cynlluniau ar gyfer cyflawni arbedion, a fydd yn ystyried risgiau ailadroddus o 2011-12 a'r risgiau sy'n codi sydd ar hyn o bryd yn dod o dan 2011-12 (er enghraifft hysbysiadau grant a all arwain at grant llai).

**5.2** Symudir ymlaen â'r meysydd a nodwyd uchod i ganolbwyntio arnynt, ynghyd â nodi cyfleoedd eraill i liniaru'r risgiau o fewn y gyllideb.

**5.3** Tra canolbwyntiwyd yn bennaf ar gyllideb 2012-13, mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canol cyfredol yn rhagweld diffygion sylweddol ar draws y 3 mlynedd nesaf. Mae'n hanfodol i gychwyn yn fuan ar gynllunio'r gyllideb ar gyfer 2013-14 a thu draw i hynny, gan ddatblygu strategaethau i roi sylw i'r bwlch a ragwelir ar hyn o bryd ond, yn ogystal, i fod yn ddigon hyblyg i roi sylw i sefyllfaoedd arall a all godi.

## 6. ARGYMHELLION

**6.1** Nodi cynnwys yr adroddiad;

**6.2** Adolygu'r asesiad hwn gyda gwasanaethau a chynnal asesiad pellach o risgiau yng nghyllideb 2012-13 ac adrodd yn ôl i'r Bwrdd unwaith y bydd y gwasanaethau wedi cwblhau cynlluniau o ran sut y maent am gyflawni'r arbedion.

**GILL LEWIS**
**SWYDDOG ADRAN 151 DROS DRO** **16 MAWRTH 2012**